# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 15 Mai 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 137(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

(60 munud)

**NDM6722** Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU barhau i ystyried darpariaethau Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Medi 2017 a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

European Union (Withdrawal) Bill 2017-19 — UK Parliament (Saesneg yn unig)

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

## 4 Datganiad gan Arweinydd y Tŷ: Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid: Treth Tir Gwag

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Arweinydd y Tŷ: Y Diweddariad ar Gysylltedd Digidol yng Nghymru

(45 munud)

## 7 Dadl: Rôl y System Gynllunio wrth Greu Lleoedd

(60 munud)

**NDM6721** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod datblygiadau a lleoedd o ansawdd a gynlluniwyd yn dda yn hanfodol i sicrhau iechyd a llesiant hirdymor pobl Cymru.

2. Yn credu bod y system cynllunio gwlad a thref mewn lle da i wneud penderfyniadau holistig ar yr amgylchedd adeiledig sy'n sicrhau bod y nodau llesiant yn cael yr effaith orau bosibl.

3. Yn cydnabod bod cael polisïau cenedlaethol cadarn ar gyfer creu lleoedd ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn dangos i awdurdodau cynllunio ac eraill sut y mae arwain y gwaith o greu lleoedd a sicrhau eu bod yn rhai da.

4. Yn cydnabod y rôl y mae gweithwyr proffesiynol ym maes yr amgylchedd adeiledig yn ei chwarae yn y gwaith o greu lleoedd ac yn galw ar awdurdodau lleol i sicrhau bod adrannau cynllunio yn cael yr adnoddau i'w galluogi i fod yn effeithiol.

Argraffiad Drafft 10 o Bolisi Cynllunio Cymru

Argraffiad 9 Cyfredol o Bolisi Cynllunio Cymru

Ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn credu bod angen addasu'r system gynllunio gwlad a thref i wneud penderfyniadau mwy holistig ar yr amgylchedd adeiledig sy'n gwneud y gorau o nodau llesiant ac yn cynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai.

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod yr angen am fframwaith genedlaethol gadarn ar greu lleoedd i roi canllawiau i awdurdodau cynllunio ac eraill i greu lleoedd a sicrhau eu bod yn rhai da.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu fel pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio nodyn cyngor technegol 20 ar fyrder er mwyn ei gwneud yn glir bod angen cynnal asesiadau o effaith ceisiadau unigol ar y Gymraeg mewn amgylchiadau penodol.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cynnwys datganiad clir ynghylch pwysigrwydd a pherthnasedd y Gymraeg wrth gynllunio sut i ddefnyddio tir.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu arolygiaeth gynllunio ar wahân i Gymru, er mwyn i'r arolygiaeth feithrin arbenigedd mewn system gynllunio Cymru'n unig.

Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 16 Mai 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10/05/2018 i'w hateb ar 15/05/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

**1** OAQ52176

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fuddsoddi mewn twristiaeth ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**2** OAQ52164

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a ffitrwydd yng Nghasnewydd?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**3** OAQ52206

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau adfywio yng Ngorllewin De Cymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**4** OAQ52204

Beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gefnogi undebau credyd?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

**5** OAQ52203

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fargen dinas-ranbarth Bae Abertawe?

**Leanne Wood** *Rhondda*

**6** OAQ52202

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am berfformiad y gwasanaeth ambiwlans?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**7** OAQ52186

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu gofal iechyd yng nghanolbarth Cymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**8** OAQ52207

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth i borthladd Caergybi?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**9** OAQ52201

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynyddu'r ddapariaeth o addysg feddygol ym Mhrifysgol Bangor?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

**10** OAQ52165

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch ymchwilio i gamfanteisio ar weithwyr gwasanaethau golchi car yng Nghymru?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

**11** OAQ52178

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ailenwi pont Hafren?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**12** OAQ52161

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymyrraeth Llywodraeth Cymru mewn byrddau iechyd ledled Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**13** OAQ52162

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith ymarfer corff a deiet ar iechyd?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

**14** OAQ52205

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o nifer y gweithwyr proffesiynol o'r UE sy'n gweithio yng Nghymru?

**Jane Hutt** *Bro Morgannwg*

**15** OAQ52192

A wnaiff y Prif Weinidog gefnogi galwadau i wneud Cymru yn genedl undeb credyd?

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 22 Mai 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Y Cynllun Gweithredu Economaidd (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol: Trawsnewid Gofal Cymdeithasol yng Nghymru: Gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb (45 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2017-18 (60 munud)

**Dydd Mercher 23 Mai 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan y Llywydd: Diweddariad ar sefydlu Senedd Ieuenctid i Gymru (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau: Deiseb P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol Rhan un: safbwynt o Gymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Dechrau'n Deg: Allgymorth (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Sir Fynwy) (30 munud)

*[Toriad: Dydd Llun 28 Mai – dydd Sul 3 Mehefin]*

**Dydd Mawrth 5 Mehefin 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Cynllun Hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (45 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Diweddariad ar flaenoriaethau'r Iaith Gymraeg (45 munud)

- Datganiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip: Diweddariad ar y Rhaglen Swyddi Gwell yn Nes at Adref (45 munud)
- Cynnig i amrywio’r drefn o ystyried gwelliannau Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 6 Mehefin 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (45 munud)
- Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Neil McEvoy (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 12 Mehefin 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 13 Mehefin 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i’r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Sian Gwenllian (Arfon) (30 munud)